CYNGOR FFOADURIAID CYMRU
WELSH REFUGEE COUNCIL

# Welsh Refugee Council

## Annual Report 2018/19



# Contents


| | |
|---|---|
| Foreword | 3 |
| About Us | 4 |
| Case Study | 6 |
| Play Development | 7 |
| Refugee Well Housing Project | 8 |
| ARP | 9 |
| Influencing | 10 |
| Tackling Hate Crime | 11 |
| Volunteering | 12 |
| Skills for Integration | 13 |
| Syrian Vulnerable Persons Relocation Scheme | 14 |
| How We Spend Our Money | 15 |
| Who We Are | 16 |
| Our Funders | 17 |


# Foreword







The Welsh Refugee Council exists to offer advice and support to people who have had to flee their home in fear of their lives. We are proud to live in a country that aspires to be a Nation of Sanctuary, and to lead an organisation that takes forward our response in Wales.

The strength and effectiveness of the Welsh Refugee Council (WRC) is based on our staff and volunteers, over 50% of which were refugees themselves. This is challenging and stressful work, requiring considerable expertise and an understanding of many languages and cultures. Yet we know from talking to caseworkers, English teachers and playworkers that the experience of working with people from all over the world is inspiring and rewarding.

By providing this specialist advice and working closely with partners we have been very effective in preventing homelessness and integrating refugees in the wider community. The accumulated data from casework enables us to identify and tackle common problems with accessing housing, benefits, education and healthcare.

The WRC also recognises the importance of celebrating the talents and contributions of asylum seekers through Refugee Week Wales, Sanctuary at the Senedd and in communities across Wales.

At the start of the year, we decided to allocate £40k from reserves to fund the post of Director of Policy and Communications. A top priority was to raise destitution as an issue, leading to the establishment of the Wales No Recourse to Public Funds Forum, bringing together public services and third sector organisations and contributing to the Welsh Government's Nation of Sanctuary Plan.

We still have much to do to secure longer-term funding, upgrade our offices, develop our communications, build new projects and continually improve the way we work. This annual report highlights the many achievement and initiatives over the year, and we are confident that we are in a strong position to continue this vital work.

None of this would be possible without the support of our individual donors and funders, the continued confidence of the Welsh Government and the strong partnerships brought together in the Asylum Rights Programme and the Refugee Coalition. The trustees would like to extend our heartfelt thanks and appreciation to all involved.

**Harry Iles – Chair**
**Salah Mohammed – CEO**

# About Us 

**Welsh Refugee Council has been empowering asylum seekers and refugees to build new futures in Wales for 30 years. We deliver direct specialist support through our bases in Cardiff, Newport, Swansea and Wrexham.**

**We work extensively with a range of community, voluntary and statutory sector partners and strive to contribute to the creation of a society where respect and equality for all are paramount and where human rights are enjoyed.**

**We support asylum seekers and refugees at the most critical points of their lives. Our work can make the difference between someone with a refused asylum claim spiralling downward into destitution, untreated health problems, and homelessness – or it can create an alternative future where they find their feet and begin building a life in Wales thanks to improved language skills, access to benefits, legal help, and other support that they are entitled to.**

**"Welsh Refugee Council saved me from being homeless" – Move On refugee**

## Vision

Working together for a Wales where refugees and asylum seekers are welcomed, respected and have access to protection, safety and dignity that enables them to contribute and fully participate in Welsh society.

## Mission

To improve the lives of asylum seekers and refugees in Wales through delivering specialist support and influencing policy and practice.

## Values

- We champion human rights, equality and diversity
- We empower and promote the voices of refugees and asylum seekers
- We are a strong, independent voice that demonstrates leadership, builds capacity and works collaboratively
- We exemplify organisational excellence in service delivery, staff development and governance.



# Case Study



**Reba and her husband had recently welcomed a little girl. They were attending the Play Group with their elder children and received support from our Team.**







Due to circumstances in their case, they were not receiving the full financial support that other families benefit from. As a result, they were relying on a foodbank to feed themselves. This put an incredible strain on the family. Our Play Workers were able to help the family access additional support, supplied them with nappies for their youngest children, and provided them with toys and baby equipment.

As their children grow, the family are bringing in outgrown clothes and toys to give to other families in need in the group.

The children are regulars and are an absolute joy in the room, running through the door or sometimes riding in on scooters! They love to play and have joined us on nearly all our adventures throughout the year.

The eldest two now attend a Welsh medium school and are thriving, speaking three languages, practicing and teaching us Welsh when they join us.

# Play Development





**355**

**children and babies from over 180 families**

**136**

**play sessions including cinema days, trips and special events**

**164**

**packages of toys and baby equipment given out**

Our Play Development Project helps children deal with the trauma of fleeing persecution and to express their feelings and fears through play. We provide safe places and play support to children from some of the most vulnerable families arriving in Cardiff.

After arriving in the UK, their families often face uncertainty over whether they will be allowed to remain in the safety of the UK while their asylum claims are being processed. This is a stressful and anxious wait. Families must survive on as little as £35.39 every week while living in cramped accommodation with little communal space, and children often sharing bedrooms with adult family members.

When they are allowed to remain in the UK as refugees, the problems don't end. Families face the prospect of being homeless and find somewhere new to live.

We offer a space away from the day to day challenges. We offer play opportunities, out of school holiday programmes and trips that allow them to learn, be creative and just be children.

Our play staff continually go the extra mile; sourcing toys, baby equipment and household goods for families.

# Refugee Well Housing Project



**2,638**

**refugees supported**

**579**

**new refugees supported into accommodation and financial support**

**6000+**

**face to face advice sessions delivered**

> **"I am very happy with WRC, I get a lot of support and help. There are wonderful people here – they are like our family"**

Receiving refugee status marks the end of an anxious wait for an asylum decision, but it is also the beginning of a new period of uncertainty and change. However, housing and financial support for new refugees lasts for just 28 days.

During this time, families need to find new places to live and ways to support themselves. Some will have been in the UK for just a few weeks and have limited English or Welsh language skills. Others may have been in the UK for years unable to work, surviving destitution and poverty. We are there every step of the way to support refugees to build new futures.

Our caseworkers in Cardiff, Newport, Swansea and Wrexham help people to navigate the transition to their new life and to understand the rights and responsibilities it brings.

With no "priority" need for housing, many refugees are expected to find their own accommodation with private landlords.

We aim to prevent homelessness through working closely with local advice and support agencies, hostels and local authorities to find the best possible place for that person.

We help refugees to do all the essential things needed to build a new life such as opening bank accounts and accessing employment support. We enable them to open bank accounts, to access employment support, and to access other specialist entitlements based on their individual needs.

# ARP





**759**

**clients supported by Welsh Refugee Council directly**

**3996**

**individual advice sessions delivered**

**829**

**clients supported through partnership**

We believe everyone should be entitled to live with dignity. Asylum seekers should have safe, liveable accommodation whilst they wait for a decision on their asylum claim. Unfortunately, this is often not the case and many people in the asylum system do not have the means to meet even the most basic of needs.

As most asylum seekers are not permitted to work, they are reliant on Home Office support and accommodation. But for asylum seekers, there are many barriers to receiving the limited support they are rightly entitled to. We ensure, wherever possible, that people access this support so that they have somewhere safe to sleep and enough to eat.

Every day, we prevent people from becoming homeless. Our team have the experience and expertise to assist people in desperate circumstances.

Our team spend time listening to clients, helping them to understand the asylum support system, identifying the problem and helping find a way forward.

# Influencing



## 237

**asylum seekers and refugees consulted on the Nation of Sanctuary Plan**

## 7

**politicians and influencers met**

## 27

**asylum seekers and refugees took 2 trips to Senedd**

> **Reba: "Thank you so much for taking us out. We are all from the Lynx House and don't get to do anything. This helps me forget" – referring to the asylum journey.**

We are the leading organisation, promoting equality for and fostering good relations towards asylum seekers and refugees. We lead change through campaigning to change policies and practice which directly impact the lives of asylum seekers and refugees, and through influencing public perceptions and increasing public understanding about the right to asylum and the benefits of welcoming people in need to Wales.

We use our experience of delivering frontline services to shape our campaigning, influencing and advocacy work to ensure we focus on areas that matter to asylum seekers and refugees. As part of this we Co Chair the Wales No Recourse to Public Funds Forum, are a key partner to the Welsh Refugee Coalition, lead on 4/5 Health and Wellbeing Groups and regularly attend important stakeholder meetings with the Home Office, Welsh Government, local authorities and charity partners.

Importantly, as well as seeking to act as a voice for asylum seekers and refugees, we enable them to act as their own advocates through creating opportunities for them to meet directly with decision makers and politicians.

We work with the media to promote positive perceptions of asylum seekers and refugees through developing positive news stories and challenging myths and misconceptions. We empower asylum seekers and refugees to be able to speak for themselves about their own stories and the issues that most affect them.

# Tackling Hate Crime





> **"Now that I know, I would go to the end of the (Hate Crime) case – I would follow that case all the way through" - Aram**

We are committed to making Wales a welcoming nation to all those seeking sanctuary here. Unfortunately, we know that's not always the experience.

Asylum seekers and refugees can be the targets of hate crime but often worry about reporting it. This can be because of bad experiences with authorities in their own countries, that they worry about the impact on their asylum or immigration application, or they might not realise that this sort of abuse is illegal in the UK and is something that they should not have to tolerate.

In partnership with Sanctuary Project, British Red Cross' women's group and SEWREC's drop in groups we held thirteen hate crime awareness raising session with asylum seekers, refugees and other migrants in the Gwent area to enable them to identify and respond to hate crime and or incident which they've witnessed or experienced.

We have also produced specialist resources aimed at raising awareness available in the top seven community languages.



# Volunteering



**40**
volunteers

**15**
languages spoken

**10,000+**
volunteer hours

We couldn't work without our volunteers. Whether welcoming people to our offices, leading language classes, or providing peer to peer support, our volunteers make the Welsh Refugee Council.

Our volunteers come from around the globe and all backgrounds and speak over 15 different languages. They include former teachers, entrepreneurs and journalists. We particularly welcome volunteers from asylum and refugee backgrounds.

Many volunteers say that coming to the Welsh Refugee Council is like having a second family.

One of the key areas of our work is supporting volunteers from refugee backgrounds to enhance their IT skills, practice their language skills, and to learn other important transferable skills to help them find jobs in the UK – as well as helping us with much needed support.

**"I feel very well supported here. Everyone is helpful and kind. It feels like family here." – Move On Volunteer**

# Skills for Integration



**10–15**
students per class

**200+**
free English lessons delivered

**5**
days a week of classes



Asylum seekers and refugees come to Wales from all over the world, enriching our culture and helping to make Wales an outward-looking, multi-cultural, multi-lingual nation.

We work hard to ensure that we give people the skills they need to integrate fully into Welsh life.

Our dedicated volunteer teachers offer free English language classes for asylum seekers and refugees with levels from beginner to advanced. The classes bring together people from different countries and continents to study together and make friends along the way.

**We work with partners to develop specialist short courses for asylum seekers and refugees which have included:**

- **Public Service Interpretation**
- **Numeracy classes**
- **CV workshops**

# Syrian Vulnerable Persons Relocation Scheme



**18**

**families supported**

- **Empowered to work toward independent living**
- **Feel integrated into life in local neighbourhood.**

**"I am very happy and feel comfortable with my caseworker. I appreciated the WRC's continuous help and support with integration, getting into school, accessing benefits, housing and my health needs"**

We want all those fleeing persecutions and arriving in Wales to feel empowered to build a new future for themselves and their family. As well as our support for those arriving through the asylum route, we welcome those arriving through the Vulnerable Persons Relocation Support Service (previously the Syrian Vulnerable Persons Resettlement Scheme). This service is delivered through contracts with Local Authorities in Wales who have signed up to the scheme.


We provide a range of orientation services to support the family's welcome and integration into life in Wales including:

- meeting new families at the airport and accompanying them to their new home;
- providing a grocery pack on arrival;
- assisting with tenancy meetings and agreements
- providing advice on healthcare and financial support
- accompanying to jobcentre appointments;
- enabling families to access English language education;

# How we spend our money




## 96% of our income went towards work supporting asylum seekers and refugees in Wales



### Income

| | |
|---|---|
| 10% | Syrian Vulnerable Persons Resettlement Scheme £92,881 |
| 34.93% | Grant and Trust £330,719 |
| 54% | Welsh Government £516,665 |
| 0.8% | Donations and Subs £6,513 |
| 0.14% | Hardship £13,388 |
| 0.13% | Other Income £12,660 |



### Expenditure

| | |
|---|---|
| 17.8% | Reducing Homelessness |
| 4% | Changing Perceptions |
| 16.5% | Increasing capacity of service provision |
| 1.7% | Enabling learning and reducing the effect of trauma through play |
| 4% | Paralegal service |
| 0.7% | Empowering people to speak up about hate crime |
| 37.8% | Asylum Seekers support |
| 9.5% | Syrian integration in Wales |
| 8% | Operating costs |

# Who we are 

## Board of Trustees

**Maureen Gower**
Chair resigned October 23 2018

**Harry Iles**
Vice – Chair elected October 2018

**Naveeda Morgan**
Treasurer

**Catherine McKeag**
Vice Chair 22 October 2018

**Alison Dunnett**

**Brian Gibbons**

**Nicholas Webb**

**Mohamed Field**

**Themba Moyo**

**Gaynor Jones**

**Andrea Cleaver**

## Our Offices

**Cardiff Office**
120-122 Broadway,
Cardiff
CF24 1NJ
02920 489 800

**Newport Office**
66 Lower Dock
Street,
Newport
NP20 1EF
01633 266 420

**Swansea Office**
Swansea YMCA,
1 The Kingsway,
Swansea
SA1 5JQ
01792 630 180

**Wrexham Office**
Bawso,
33 Grosvenor Road,
Wrexham
LL11 1BT
01978 355 818

## Our Partners

Asylum Justice
Bawso – Providing specialist services for BME communities
dpia – Displaced People in Action / Alltudion ar Waith
Ethnic Minorities & Youth Support Team Wales / Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid Cymru
tgp Cymru – Plant a Theuluoedd / Children and Families
City of Sanctuary Award – Welcoming Asylum Seekers and Refugees

# Our Funders 

Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales
Community Fund
Funded by Comic Relief
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend County Borough Council
the waterloo foundation
Lloyds Bank Foundation England & Wales
Rhondda Cynon Taf
Ariennir gan: / Funded by: Swyddfa Comisiynydd Yr Heddlu a Throseddu Gwent / Office of Police and Crime Commissioner
City of Sanctuary Cardiff / Dinas Noddfa Caerdydd
Prisoners of Conscience Appeal Fund

We would like to acknowledge the support of our individual donors, corporate partners and funders over the past year. Without your generosity and partnership, we would not be able to improve the lives of so many asylum seekers and refugees in Wales. Your support is hugely appreciated.

Each year, demand for services out strips our capacity, and our casework numbers remain high. To be the best that we can, and to deliver the right services that change lives we continue to fundraise.

There are many ways you can support our life changing work:

- Volunteer your time
- Become a member
- Give a financial gift
- Become a partner

Every penny raised, ensures our critical work can continue. Thank you for listening.

# Gallery



















# Cyngor Ffoaduriaid Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2018/19



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Amdanom ni | 4 |
| Astudiaethau achos | 6 |
| Datblygiad chwarae | 7 |
| Prosiect tai lles ffoaduriaid | 8 |
| ARP | 9 |
| Dylanwadu | 10 |
| Mynd i'r afael â throseddau casineb | 11 |
| Gwirfoddoli | 12 |
| Sgiliau ar gyfer integreiddio | 13 |
| Cynllun Ail-sefydlu pobl Syriaid sy'n Agored i Niwed | 14 |
| Sut rydym yn gwario ein harian | 15 |
| Pwy ydym ni | 16 |
| Ein Cyllidwyr | 17 |


# Rhagair







Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn bodoli i gynnig cyngor a chefnogaeth i bobl sydd wedi gorfod ffoi o'u cartref mewn ofn o'u bywydau. Rydym yn falch o fyw mewn gwlad sy'n anelu at fod yn Genedl Noddfa, ac i arwain sefydliad sy'n symud ein hymateb yng Nghymru ymlaen.

Mae cryfder ac effeithiolrwydd Cyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC) yn seiliedig ar ein staff a'n gwirfoddolwyr, gyda dros 50% ohonynt yn ffoaduriaid ar un adeg. Mae hwn yn waith heriol a llawn straen, sy'n gofyn am arbenigedd a dealltwriaeth sylweddol o lawer o ieithoedd a diwylliannau. Ac eto rydym yn gwybod o siarad â gweithwyr achos, athrawon Saesneg a gweithwyr chwarae fod y profiad o weithio gyda phobl o bob cwr o'r byd yn ysbrydoledig ac yn werth chweil.

Trwy ddarparu'r cyngor arbenigol hwn a gweithio'n agos gyda phartneriaid, rydym wedi bod yn effeithiol iawn wrth atal digartrefedd ac integreiddio ffoaduriaid yn y gymuned ehangach. Mae'r data cronedig o waith achos yn ein galluogi i nodi a mynd i'r afael â phroblemau cyffredin gyda chyrchu tai, budd-daliadau, addysg a gofal iechyd.

Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru hefyd yn cydnabod pwysigrwydd dathlu doniau a chyfraniadau ceiswyr lloches trwy Wythnos Ffoaduriaid Cymru, Noddfa yn y Senedd ac mewn cymunedau ledled Cymru.

Ar ddechrau'r flwyddyn, fe benderfynon ni ddyrannu £40k o gronfeydd wrth gefn i ariannu swydd Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu. Prif flaenoriaeth oedd codi amddifadedd fel mater o bwys, gan arwain at sefydlu Fforwm Dim Cyrchu i Gronfeydd Cyhoeddus Cymru, dod â gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector ynghyd a chyfrannu at Gynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru.

Mae gennym lawer i'w wneud i sicrhau cyllid tymor hirach, uwchraddio ein swyddfeydd, datblygu ein cyfathrebiadau, adeiladu prosiectau newydd a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio yn barhaus. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn tynnu sylw at y cyflawniad a'r mentrau niferus dros y flwyddyn, ac rydym yn hyderus ein bod mewn sefyllfa gref i barhau â'r gwaith hanfodol hwn.

Ni fyddai hyn yn bosibl heb gefnogaeth ein rhoddwyr a'n cyllidwyr unigol, hyder parhaus Llywodraeth Cymru a'r partneriaethau cryf a ddaeth ynghyd yn y Rhaglen Hawliau Lloches a'r Glymblaid Ffoaduriaid. Hoffai'r ymddiriedolwyr estyn ein diolch a'n gwerthfawrogiad twymgalon i bawb sy'n rhan o hyn.

**Harry Iles - Cadeirydd**
**Salah Mohammed – Prif Swyddog Gweithredol**

# Amdanom Ni 4

**Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru wedi bod yn galluogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i greu dyfodol newydd yng Nghymru ers 30 mlynedd. Rydym yn darparu cefnogaeth arbenigol uniongyrchol trwy ein canolfannau yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam.**

**Rydym yn gweithio’n helaeth gydag ystod o bartneriaid cymunedol, gwirfoddol a statudol ac yn ymdrechu i gyfrannu at greu cymdeithas lle mae parch a chydraddoldeb i bawb o’r pwys mwyaf a lle mae hawliau dynol yn cael eu mwynhau.**

**Rydym yn cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid ar adegau mwyaf hanfodol eu bywydau. Gall ein gwaith wneud gwahaniaeth rhwng rhywun sydd wedi cael ei hawliad lloches ei wrthod ac sy’n symud tuag at amddifadedd, problemau iechyd heb eu trin, a digartrefedd - neu rywun sy’n cael dyfodol amgen lle mae’n cael ei draed dano ac yn creu bywyd yng Nghymru diolch i sgiliau iaith gwell, mynediad at fudd-daliadau, cymorth cyfreithiol, a chymorth arall y mae ganddo hawl iddo.**

**“Fe wnaeth Cyngor Ffoaduriaid Cymru fy achub rhag bod yn ddigartref” – Ffoadur Symud Ymlaen**

## Gweledigaeth

Cydweithio ar gyfer Cymru lle mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu croesawu, eu parchu a chael mynediad at amddiffyniad, diogelwch ac urddas sy’n eu galluogi i gyfrannu a chymryd rhan lawn yng nghymdeithas Cymru.

## Cenhadaeth

Gwella bywydau ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru trwy ddarparu cefnogaeth arbenigol a dylanwadu ar bolisïau ac arferion.

## Gwerthoedd

- Rydym yn hyrwyddo hawliau dynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Rydym yn galluogi ac yn hyrwyddo lleisiau ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Rydym yn llais cryf, annibynnol sy’n dangos arweinyddiaeth, yn meithrin gallu ac yn gweithio ar y cyd
- Rydym yn enghraifft o ragoriaeth sefydliadol wrth ddarparu gwasanaethau, datblygu staff a llywodraethu.



# Astudiaethau Achos 6

**Fe wnaeth Reba a'i gŵr groesawu merch fach yn ddiweddar. Roeddent yn mynychu'r Grŵp Chwarae gyda'u plant hŷn ac yn derbyn cefnogaeth gan ein Tîm.**







Fe wnaeth Reba a'i gŵr groesawu merch fach yn ddiweddar. Roeddent yn mynychu'r Grŵp Chwarae gyda'u plant hŷn ac yn derbyn cefnogaeth gan ein Tîm.


Oherwydd amgylchiadau yn eu hachos nhw, nid oeddent yn cael y gefnogaeth lawn y mae teuluoedd eraill yn ei derbyn. O ganlyniad, roeddent yn dibynnu ar fanc bwyd i fwydo'u hunain. Rhoddodd hyn straen anhygoel ar y teulu. Roedd ein Gweithwyr Chwarae yn gallu helpu'r teulu i gael gafael ar gymorth ychwanegol, cyflenwi cewynnau iddynt ar gyfer eu plant ieuengaf, a darparu teganau ac offer babanod iddynt.

Wrth i'w plant dyfu, mae'r teulu'n dod â dillad a theganau sy'n rhy fach iddynt i mewn i'w rhoi i deuluoedd eraill mewn angen yn y grŵp.

Mae'r plant yn mynychu'n rheolaidd ac yn llawer o hwyl yn yr ystafell, yn rhedeg trwy'r drws neu weithiau ar sgwteri! Maent wrth eu bodd yn chwarae ac wedi ymuno â ni ar bron pob un o'n hanturiaethau trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r ddau hynaf bellach yn mynychu ysgol Gymraeg ac yn ffynnu, bellach yn siarad 3 iaith, yn ymarfer ac yn dysgu Cymraeg i ni pan fyddant yn ymuno â ni.

# Datblygiad Chwarae 7



**355**

**o blant a babanod o dros 180 o deuluoedd**

**164**

**o becynnau o deganau ac offer babanod wedi'u darparu**

**136**

**o sesiynau chwarae gan gynnwys diwrnodau sinema, teithiau a digwyddiadau arbennig**

Mae ein prosiect Datblygiad Chwarae yn helpu plant i ddelio â'r trawma o ffoi rhag erledigaeth ac i fynegi eu teimladau a'u hofnau trwy chwarae. Rydym yn darparu lleoedd diogel a chefnogaeth chwarae i blant o rai o'r teuluoedd mwyaf agored i niwed sy'n cyrraedd Caerdydd.

Ar ôl cyrraedd y DU, mae eu teuluoedd yn aml yn wynebu ansicrwydd ynghylch a fyddant yn cael aros yn niogelwch y DU tra bod eu hawliadau lloches yn cael eu prosesu. Mae hwn yn aros dirboenus a phryderus. Rhaid i deuluoedd oroesi ar gyn lleied â £35.39 bob wythnos wrth fyw mewn llety cyfyng heb lawer o le cymunedol, a phlant yn aml yn rhannu ystafelloedd gwely gydag oedolion yn eu teulu.

Pan ganiateir iddynt aros yn y DU fel ffoaduriaid, nid yw'r problemau'n dod i ben. Yn lle, mae teuluoedd yn wynebu digartrefedd a dod o hyd i rywle newydd i fyw.

Rydym yn cynnig lle i ffwrdd o'r heriau dydd i ddydd. Rydym yn cynnig cyfleoedd chwarae, rhaglenni gwyliau ysgol a theithiau sy'n caniatáu iddynt ddysgu, bod yn greadigol a bod yn blant.

Mae ein staff chwarae yn mynd yr ail filltir yn barhaus; dod o hyd i deganau, offer babanod a nwyddau cartref i deuluoedd.

# Prosiect Tai Lles Ffoaduriaid



**2,638**

**o ffoaduriaid wedi'u cefnogi**

**579**

**o ffoaduriaid newydd wedi'u cefnogi i lety a chael cymorth ariannol**

**6000+**

**o sesiynau cymorth wyneb-i-wyneb wedi'u darparu**

> **"Rwy'n hapus iawn gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru, rwy'n derbyn llawer o gymorth a chefnogaeth. Mae yna bobl wych yma - maen nhw fel ein teulu"**

Mae derbyn statws ffoadur yn nodi diwedd aros pryderus am benderfyniad lloches, ond mae hefyd yn ddechrau cyfnod newydd o ansicrwydd a newid. Fodd bynnag, mae cefnogaeth tai ac ariannol i ffoaduriaid newydd yn para am 28 diwrnod yn unig.

Yn ystod yr amser hwn, mae angen i deuluoedd ddod o hyd i leoedd newydd i fyw a ffyrdd i gynnal eu hunain. Bydd rhai wedi bod yn y DU am ychydig o wythnosau yn unig ac mae ganddynt sgiliau Saesneg neu Gymraeg cyfyngedig. Efallai bod eraill wedi bod yn y DU ers blynyddoedd heb y gallu i weithio, gan oroesi amddifadedd a thlodi. Rydyn ni yno bob cam o'r ffordd i gefnogi ffoaduriaid i greu dyfodol newydd.

Mae ein gweithwyr achos yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam yn helpu pobl i lywio'r trawsnewidiad i'w bywyd newydd ac i ddeall yr hawliau a'r cyfrifoldebau a ddaw yn ei sgil.


Heb unrhyw angen "blaenoriaeth" am dai, mae disgwyl i lawer o ffoaduriaid ddod o hyd i'w llety eu hunain gyda landlordiaid preifat.

Ein nod yw atal digartrefedd trwy weithio'n agos gydag asiantaethau cyngor a chymorth lleol, hosteli ac awdurdodau lleol i ddod o hyd i'r lle gorau posibl i'r unigolyn hwnnw.

Rydym yn helpu ffoaduriaid i wneud yr holl bethau hanfodol sydd eu hangen arnyn nhw i greu eu bywyd newydd fel agor cyfrifon banc a chael cymorth cyflogaeth. Rydym yn eu galluogi i agor cyfrifon banc, i gael mynediad at gymorth cyflogaeth, ac i gael mynediad at hawliau arbenigol eraill yn seiliedig ar eu hanghenion unigol.

# ARP





**759**

**o gleientiaid wedi'u cefnogi gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru yn uniongyrchol**

**3996**

**o sesiynau cyngor unigol wedi'u darparu**

**829**

**o gleientiaid wedi'u cefnogi drwy bartneriaethau**

Credwn y dylai fod gan bawb hawl i fyw gydag urddas. Dylai ceiswyr lloches gael llety diogel wrth iddynt aros am benderfyniad ar eu cais am loches. Yn anffodus, yn aml nid yw hyn yn wir ac nid oes gan lawer o bobl yn y system loches fodd i ddiwallu hyd yn oed yr anghenion mwyaf sylfaenol.

Gan na chaniateir i'r mwyafrif o geiswyr lloches weithio, maent yn ddibynnol ar gefnogaeth a llety'r Swyddfa Gartref. Ond i geiswyr lloches, mae yna lawer o rwystrau i dderbyn y gefnogaeth gyfyngedig y mae ganddyn nhw hawl i'w cael. Rydym yn sicrhau, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bod pobl yn cyrchu'r gefnogaeth hon fel bod ganddyn nhw rywle diogel i gysgu a digon i'w fwyta.

Bob dydd, rydym yn atal pobl rhag bod yn ddigartref. Mae gan ein tîm y profiad a'r arbenigedd i gynorthwyo pobl mewn amgylchiadau enbyd.

Mae ein tîm yn treulio amser yn gwrando ar gleientiaid, gan eu helpu i ddeall y system cymorth lloches, nodi'r broblem a helpu i ddod o hyd i ffordd ymlaen.

# Dylanwadu



**237**

**Ymgynghorwyd 237 o geiswyr lloches a ffoaduriaid ar Gynllun Cenedl Noddfa**

**7**

**Wedi cwrdd â 7 gwleidydd a dylanwadwr**

**27**

**2 daith i'r Senedd gyda 27 o geiswyr lloches a ffoaduriaid**


**Reba: "Diolch yn fawr am fynd â ni ar y daith. Rydyn ni'n byw yn Nhŷ Lynx a does dim modd i ni wneud unrhyw beth. Mae hyn yn fy helpu i anghofio." – yn cyfeirio at ei thaith i geisio lloches.**

Ni yw'r prif sefydliad yng Nghymru sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i geiswyr lloches a ffoaduriaid ac yn eu meithrin. Rydym yn arwain newid trwy ymgyrchu i newid polisïau ac arferion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau ceiswyr lloches a ffoaduriaid, a thrwy ddylanwadu ar ganfyddiadau'r cyhoedd a chynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r hawl i loches a buddion croesawu pobl mewn angen i Gymru.

Rydym yn defnyddio ein profiad o ddarparu gwasanaethau rheng flaen i lunio ein gwaith ymgyrchu, dylanwadu ac eiriolaeth er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar feysydd sy'n bwysig ar geiswyr lloches a ffoaduriaid. Fel rhan o hyn, rydym yn Cyd-gadeirio Fforwm Dim Cyrchu i Gronfeydd Cyhoeddus Cymru, yn bartner allweddol i Glymblaid Ffoaduriaid Cymru, yn arwain ar 4/5 o Grwpiau Iechyd a Lles ac yn mynychu cyfarfodydd rhanddeiliaid pwysig yn rheolaidd gyda'r Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid elusennol.

Yn bwysig, yn ogystal â cheisio gweithredu fel llais i geiswyr lloches a ffoaduriaid, rydym yn eu galluogi i weithredu fel eu heiriolwyr eu hunain trwy greu cyfleoedd iddynt gwrdd yn uniongyrchol â gwleidyddion a phobl sy'n gwneud penderfyniadau.

Rydym yn gweithio gyda'r cyfryngau i hyrwyddo canfyddiadau cadarnhaol o geiswyr lloches a ffoaduriaid trwy ddatblygu straeon newyddion cadarnhaol, a herio chwedlau a chamsyniadau. Rydym yn grymuso ceiswyr lloches a ffoaduriaid i allu siarad drostynt eu hunain am eu straeon eu hunain am eu hanesion a'r materion sy'n effeithio fwyaf arnynt.



# Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb



**"Nawr fy mod i'n gwybod, byddwn i'n mynd i ddiwedd yr achos (Trosedd Casineb) - byddwn i'n dilyn yr achos hwnnw'r holl ffordd drwodd" – Aram**

Rydym wedi ymrwymo i wneud Cymru yn genedl groesawgar i bawb sy'n ceisio noddfa yma. Yn anffodus, rydym yn gwybod nad dyna'r profiad bob amser.

Gall ceiswyr lloches a ffoaduriaid fod yn dargedau troseddau casineb ond yn aml maent yn poeni am eu hadrodd. Gall hyn fod oherwydd profiadau gwael gydag awdurdodau yn eu gwledydd eu hunain, eu bod yn poeni am yr effaith ar eu cais am loches neu fewnfudo, neu efallai na fyddant yn sylweddoli bod y math hwn o gam-drin yn anghyfreithlon yn y DU ac yn rhywbeth nad oes rhaid iddynt ei oddef.

Mewn partneriaeth â Phrosiect Sanctuary, grŵp menywod y Groes Goch Brydeinig a grwpiau galw heibio SEWREC, cynhaliom 13 sesiwn codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb gyda cheiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr eraill yn ardal Gwent i'w galluogi i nodi ac ymateb i droseddau casineb a/neu ddigwyddiad maen nhw wedi gweld neu ddioddef.

Hefyd, cynhyrchom ni adnoddau arbenigol gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth; mae'r rhain ar gael yn y saith prif iaith gymunedol.

# Gwirfoddoli





**40**
o wirfoddolwyr

**9**
iaith yn cael eu siarad

**10,000+**
Dros 10,000 o oriau gwirfoddol

Ni allem weithio heb ein gwirfoddolwyr. Boed yn croesawu pobl i'n swyddfeydd, yn arwain gwersi iaith neu'n darparu cefnogaeth i gymheiriaid, mae ein gwirfoddolwyr yn gwneud Cyngor Ffoaduriaid Cymru.

Daw ein gwirfoddolwyr o bob cwr o'r byd a phob cefndir ac maent yn siarad dros 15 o ieithoedd. Maent yn cynnwys cyn-athrawon, entrepreneuriaid a newyddiadurwyr. Rydym yn croesawu gwirfoddolwyr o gefndiroedd lloches a ffoaduriaid yn arbennig.

Dywed llawer o wirfoddolwyr fod dod i Gyngor Ffoaduriaid Cymru fel cael ail deulu.

Un o feysydd allweddol ein gwaith yw cefnogi gwirfoddolwyr o gefndiroedd ffoaduriaid i wella eu sgiliau TG, ymarfer eu sgiliau iaith, a dysgu sgiliau trosglwyddadwy pwysig eraill i'w helpu i ddod o hyd i swyddi yn y DU - yn ogystal â'n helpu gyda'r gefnogaeth sydd ei hangen yn fawr.

**"Rwy'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth dda iawn yma. Mae pawb yn gymwynasgar ac yn garedig. Mae'n teimlo fel teulu yma." - Gwirfoddolwr Symud Ymlaen**

# Sgiliau ar gyfer Integreiddio



**10–15**
ym mhob gwers

**200+**
Wedi darparu dros 200 o wersi iaith Saesneg am ddim

**5**
Gwersi'n cael eu cynnig 5 diwrnod yr wythnos



Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn dod i Gymru o bob cwr o'r byd, gan gyfoethogi ein diwylliant a helpu i wneud Cymru yn genedl amlddiwylliannol ac amlieithog sy'n edrych tuag allan.

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod ni'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i integreiddio'n llawn i fywyd Cymru.

Mae ein hathrawon gwirfoddol ymroddedig yn cynnig gwersi iaith Saesneg am ddim i geiswyr lloches a ffoaduriaid gyda lefelau o ddechreuwyr ac yn uwch. Mae'r gwersi'n dod â phobl o wahanol wledydd a chyfandiroedd ynghyd i astudio gyda'i gilydd a gwneud ffrindiau ar hyd y ffordd.

**Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu cyrsiau byr arbenigol ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid sydd wedi cynnwys:**

- **Dehongli Gwasanaethau Cyhoeddus**
- **Gwersi rhifedd**
- **Gweithdai CV**

# Cynllun Ail-sefydlu Pobl Syriaid sy'n Agored i Niwed

**18**

**cefnogwyd 8 o deuluoedd**

- **Wedi'u galluogi i weithio tuag at fyw'n annibynnol**
- **Teimlo'n integredig i fywyd yn y gymdogaeth leol**

**"Rwy'n hapus iawn ac yn teimlo'n gyffyrddus gyda fy ngweithiwr achos. Roeddwn i'n gwerthfawrogi cymorth a chefnogaeth barhaus Cyngor Ffoaduriaid Cymru gydag integreiddio, mynd i'r ysgol, cyrchu budd-daliadau, tai a fy anghenion iechyd."**

Rydyn ni am i bawb sy'n ffoi rhag erlidiau a chyrraedd Cymru deimlo eu bod yn gallu creu dyfodol newydd iddyn nhw a'u teuluoedd. Yn ogystal â'n cefnogaeth i'r rhai sy'n cyrraedd trwy'r llwybr lloches, rydym yn croesawu'r rhai sy'n cyrraedd trwy'r Gwasanaeth Cymorth Adleoli Pobl Agored i Niwed (Cynllun Adsefydlu Pobl Syriaid sy'n Agored i Niwed yn flaenorol). Darperir y gwasanaeth hwn trwy gontractau gydag Awdurdodau Lleol yng Nghymru sydd wedi ymuno â'r cynllun.


Rydym yn darparu amryw eang o wasanaethau i gefnogi croeso ac integreiddiad teuluoedd i fywyd yng Nghymru, gan gynnwys:

- cwrdd â theuluoedd newydd yn y maes awyr a mynd gyda nhw i'w cartref newydd;
- darparu pecyn bwyd wrth gyrraedd;
- cynorthwyo gyda chyfarfodydd a chytundebau tenantiaeth;
- darparu cyngor ar ofal iechyd a chymorth ariannol;
- mynd gyda theuluoedd i apwyntiadau canolfan waith;
- galluogi teuluoedd i gael mynediad i addysg Saesneg;
- darparu cefnogaeth cyfeiriadedd arall yn ôl yr angen.




# Sut rydym yn gwario ein harian

**Aeth 96% o'n hincwm tuag at weithio i gefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru.**



**Incwm**

| | |
|---|---|
| 10% | Cynllun Ailsefydlu Pobl Syriaid sy'n Agored i Niwed £92,881 |
| 34.93% | Grant Ac Ymddiriedolaeth £330,719 |
| 54% | Llywodraeth Cymru £516,665 |
| 0.8% | Rhoddion a Chymorthdaliadau £6,513 |
| 0.14% | Cronfa Galedi £13,388 |
| 0.13% | Incwm Arall £12,660 |



**Gwariant**

| | |
|---|---|
| 17.8% | Lleihau digartrefedd |
| 4% | Newid canfyddiadau |
| 16.5% | Cynyddu capasiti darpariaeth gwasanaethau |
| 1.7% | Galluogi dysgu a lleihau effaith trawma drwy chwarae |
| 4% | Gwasanaeth paragyfreithiol |
| 0.7% | Galluogi pobl i siarad allan am droseddau casineb |
| 37.8% | Cymorth Ceiswyr Lloches |
| 9.5% | Integriad pobl o Syria yng Nghymru |
| 8% | Costau gweithredu |

# Pwy Ydym Ni



## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

**Maureen Gower**
Cadeirydd, ymddiswyddwyd Hydref 23 2018

**Harry Iles**
Is-gadeirydd, etholwyd Hydref 2018

**Naveeda Morgan**
Trysorydd

**Catherine McKeag**
Is-gadeirydd 22 Hydref 2018

**Alison Dunnett**

**Brian Gibbons**

**Nicholas Webb**

**Mohamed Field**

**Themba Moyo**

**Gaynor Jones**

**Andrea Cleaver**

## Ein Swyddfeydd

**Caerdydd**
120-122 Broadway,
Caerdydd
CF24 1NJ
02920 489 800

**Casnewydd**
66 Lower Dock Street,
Casnewydd
NP20 1EF
01633 266 420

**Abertawe**
YMCA Abertawe,
1 Ffordd y Brenin,
Abertawe
SA1 5JQ
01792 630 180

**Wrecsam**
Bawso,
33 Ffordd Grosvenor,
Wrecsam
LL11 1BT
01978 355 818

## Ein Partneriaid

# Ein Cyllidwyr



Hoffem gydnabod cefnogaeth ein rhoddwyr unigol, ein partneriaid corfforaethol a'n cyllidwyr dros y flwyddyn ddiwethaf. Heb eich haelioni a'ch partneriaeth, ni fyddem yn gallu gwella bywydau cymaint o geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr.

Bob blwyddyn, mae'r galw am wasanaethau yn fwy na'n gallu, ac mae ein niferoedd gwaith achos yn parhau i fod yn uchel. I fod y gorau y gallwn, ac i ddarparu'r gwasanaethau cywir sy'n newid bywydau rydym yn parhau i godi arian.

Mae nifer o ffyrdd y gallwch chi gefnogi ein gwaith sy'n newid bywydau:

- Gwirfoddoli eich amser
- Bod yn aelod
- Rhoi arian
- Bod yn bartner

Mae pob ceiniog sy'n cael ei godi yn sicrhau bod ein gwaith hanfodol yn gallu parhau. Diolch am wrando.

# Oriel

















